

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Busnes

Prentisiaethau yng Nghymru

Hydref 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Busnes  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Busnes

Prentisiaethau yng Nghymru

Hydref 2012



## Y Pwyllgor Menter a Busnes

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda'r cylch gwaith o archwilio deddfwriaeth ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddu a'i pholisi, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafndiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Nick Ramsay (Cadeirydd)**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy



**Byron Davies**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin De Cymru



**Keith Davies**  
Llafur Cymru  
Llanelli



**Julie James**  
Llafur Cymru  
Gorllewin Abertawe



**Alun Ffred Jones**  
Plaid Cymru  
Arfon



**Eluned Parrott**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Canol De Cymru



**David Rees**  
Llafur Cymru  
Aberavon



**Ken Skates**  
Llafur Cymru  
De Clwyd



**Joyce Watson**  
Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Dafydd Elis-Thomas**  
Plaid Cymru  
Dwyfor Meirionnydd

# Cynnwys

---

<b>Argymhellion y Pwyllgor .....</b>	<b>5</b>
<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>8</b>
Diben yr ymchwiliad .....	8
Y cefndir polisi .....	9
<b>Tueddiadau mewn prentisiaethau .....</b>	<b>11</b>
Niferoedd .....	11
Cymalau manteision cymunedol.....	14
Oedran .....	16
<b>Gwerth prentisiaethau .....</b>	<b>18</b>
Ateb anghenion sgiliau cyflogwyr.....	19
Recriwtio prentisiaid .....	22
Fframweithiau Prentisiaeth.....	23
Darparwyr hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith a darparwyr hyfforddiant .....	24
<b>Rhwystrau i brentisiaethau.....</b>	<b>26</b>
Camddefnyddio termau a chanfyddiadau negyddol .....	26
Diffyg ymwybyddiaeth a chyngor gwael.....	27
Trafnidiaeth.....	31
Sefyllfa ariannol teuluoedd.....	31
Stereoteipio ar sail rhyw.....	32
Biwrocratiaeth a chymhlethdod .....	34
Rhannu prentisiaethau.....	36
<b>Casgliadau .....</b>	<b>38</b>
<b>Atodiad A – Cylch gorchwyl yr ymchwiliad .....</b>	<b>40</b>
Materion allweddol .....	40
<b>Atodiad B – Cyfranogwyr fideo.....</b>	<b>42</b>
<b>Atodiad C – Tystion .....</b>	<b>43</b>
<b>Atodiad D – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....</b>	<b>45</b>



## Argymhellion y Pwyllgor

---

Mae argymhellion y Pwyllgor i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Mae ein holl argymhellion yn cael eu cyfeirio i Lywodraeth Cymru. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i argyhoeddi cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, o bwysigrwydd a chosteffeithiolrwydd prentisiaethau fel rhan o ddull mwy strategol o gynllunio eu hanghenion sgiliau yn y tymor canolig a'r hirdymor.  
(Tudalen 14)

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi nifer y prentisiaid sy'n mynd ymlaen i gael gwaith ar ôl i'w prentisiaeth ddod i ben, yn ôl y sector y maent yn mynd iddo.  
(Tudalen 14)

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn cymalau manteision cymunedol mewn contractau sector cyhoeddus i drefniadau isgontractio er mwyn hyrwyddo cyflogi hyfforddeion a phrentisiaid, gan ofalu peidio ag effeithio'n niweidiol ar ficrofusnesau.  
(Tudalen 15)

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod canran sylweddol o gyfleoedd Twf Swyddi Cymru yn cael eu cynnig fel prentisiaethau.  
(Tudalen 16)

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried prif ffrydio a chlustnodi cyllid ar gyfer y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau ar gyfer system gynllunio a chyllido arfaethedig ar gyfer addysg ôl-16, gyda mesurau diogelwch i sicrhau bod y rhaglen yn berthnasol i anghenion economaidd a gofynion ardaloedd lleol.  
(Tudalen 17)

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru annog cyflogwyr sydd â rhaglenni prentisiaeth sydd wedi hen ennill eu plwyf i fentora cyflogwyr bach a chanolig i'w cynghori ar gynlluniau prentisiaeth a rhannu darpariaeth hyfforddi.  
(Tudalen 19)

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru dargedu cyllid ar gyfer prentisiaethau lefel uwch yn y sectorau mwyaf priodol er mwyn sicrhau bod y sgiliau cywir yn cael eu darparu i ateb anghenion economi bywiog, modern Cymru.  
(Tudalen 21)

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa mor effeithiol yw'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau o ran ateb anghenion gwybodaeth cyflogwyr a darpar brentisiaid. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar lefel y DU i sicrhau bod gan y cynghorau sgiliau sector y gallu i deilwra fframweithiau prentisiaeth i ateb gofynion newidiol cyflogwyr a'r galw am fframweithiau prentisiaeth uwch yng Nghymru. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiwn derfynol Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru erbyn diwedd mis Rhagfyr 2012. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru annog darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith a hyfforddiant prentisiaeth i feithrin cysylltiadau agosach â chyflogwyr ac ysgolion er mwyn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a chymell cynnydd tuag at hyfforddiant seiliedig ar waith a/neu gyflogaeth. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â phroblemau o ran parch a bri tuag at brentisiaethau. Gallai hyn gynnwys:

- ailystyried prentisiaeth fel cynnyrch;
- sicrhau bod pobl yn deall ystyr y term "prentisiaeth"; ac
- ystyried ffyrdd mwy arloesol o hyrwyddo a chyfathrebu "brand" prentisiaeth i bobl ifanc. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob person ifanc a'i rieni yn cael cyngor o safon dda am y cyfleoedd a gynigir gan brentisiaethau ymhell cyn i ddisgyblion ddewis eu hopsiynau ar gyfer TGAU a chyrсияu galwedigaethol, ac annog ysgolion i hyrwyddo prentisiaethau fel dewis amgen hyfyw i addysg uwch. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cydgysylltu, hyrwyddo a theilwra cyfleoedd am brentisiaeth yn well i sicrhau bod blaenoriaethau ac anghenion lleol yn cael eu diwallu'n strategol. (Tudalen 31)



**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o sicrhau bod grantiau, gan gynnwys grantiau ar gyfer costau teithio hanfodol, ar gael i brentisiaid er mwyn i bobl ifanc o'r aelwydydd incwm isaf beidio â chael eu rhwystro rhag gwneud cais am brentisiaethau oherwydd yr effaith niweidiol ar lwfansau'r teulu.

(Tudalen 32)

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi a monitro'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau, y rhesymau am y gwahaniaethau hynny, ac archwilio'r posibilrwydd o bennu targedau ar gyfer gwella cyfradd recriwtio prentisiaid benywaidd yn y sectorau â blaenoriaeth o safbwynt economaidd.

(Tudalen 34)

**Argymhelliad 17.** Darparu hyfforddiant cydraddoldeb rhywiol ar gyfer cynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr addysgu proffesiynol i gywiro unrhyw stereoteipio yn y cyngor a roddant i bobl ifanc.

(Tudalen 34)

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau cliriach yn cael eu darparu ar gyfer cyflogwyr ar sut i recriwtio prentisiaid a'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan ddarparwyr dysgu.

(Tudalen 35)

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd y berthynas waith rhwng Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorau sgiliau sector fel rhan o'i gwaith o symleiddio'r system brentisiaethau.

(Tudalen 36)

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd prentisiaethau a reolir gan y sector er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar brentisiaethau a chodi safonau'r ddarpariaeth.

(Tudalen 37)

# Cyflwyniad

---

## Diben yr ymchwiliad

1 Diben yr ymchwiliad hwn gan Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol oedd archwilio a yw'r system brentisiaethau gyfredol yng Nghymru yn ateb anghenion economi Cymru, cyflogwyr a phobl ifanc yn effeithiol. Nodir cylch gorchwyl llawn yr ymchwiliad yn Atodiad A.

2. Roedd ein hymchwiliad yn seiliedig ar waith y pwyllgor â'n rhagflaenodd yn y Trydydd Cynulliad, a fu'n craffu ar y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu yn gynnar yn 2009, ac a argymhellodd yn ei Adroddiad Etifeddiaeth cyntaf:

“Dylid monitro'r cynllun Llwybrau at Brentisiaethau i sicrhau bod pobl ifanc sydd am ddilyn prentisiaeth yn cael y cyfle i wneud hynny, a bod cynlluniau ychwanegol ar waith pan yn bosibl i atal prentisiaethau sy'n bod eisoes rhag cael eu cwtdgi.”<sup>1</sup>

3. Roeddem hefyd yn ymwybodol bod Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Mai 2012 ar Brentisiaethau Oedolion yn Lloegr. Er bod y system brentisiaethau yno'n wahanol iawn, mae adlais tebyg i gasgliadau ac argymhellion ein hymchwiliad.

4. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r unigolion a'r sefydliadau niferus sydd wedi darparu tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig inni, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog Sgiliau, a ymatebodd yn gadarnhaol i'n cwestiynau a'n hawgrymiadau yn ystod ein sesiwn graffu ar 30 Mai.

5. Rydym yn ddiolchgar iawn i Youth Cymru (Cymdeithas Clybiau Ieuencid Cymru gynt), a hwylusodd gyfres o grwpiau ffocws a thrafodaethau â phobl ifanc er mwyn cael eu barn ar brentisiaethau.

6. Hoffem ddiolch hefyd i dîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol, a gynhaliodd 46 o gyfweiliadau<sup>2</sup> gydag ystod o gyflogwyr, prentisiaid, darparwyr hyfforddiant, colegau ac ymgeiswyr ac a gynhyrchoedd fideo o'r prif bwyntiau. Gellir gwyllo'r fideo drwy glicio ar y lincs canlynol:

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Menter a Dysgu, Adroddiad Etifeddiaeth, Argymhelliad 28, Mawrth 2011

<sup>2</sup> Rhestrir y sefydliadau y cysylltodd y tîm Allgymorth â hwy yn Atodiad B

<http://www.youtube.com/watch?v=sCuXCzCrFU4&feature=youtu.be>

<http://vimeo.com/43816814>

7. Mae'n hadroddiad wedi'i strwythuro yn unol â'r prif faterion a grybwyllwyd yn y dystiolaeth, a'n gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn gadarnhaol i'n casgliadau a'n hargymhellion er mwyn gwella polisi yn y maes hwn.

### **Y cefndir polisi**

8. Prentis yw:

“A competence based skill development programme, designed and endorsed by employers for their employees, which combines independently accredited work based learning, off the job training and relevant experience in the job.”<sup>3</sup>

9. Mae gan Gymru system brentisiaeth i bobl o bob oed sy'n cynnwys uwchsgilio'r gweithlu presennol yn ogystal â darparu llwybr i gyflogaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid.

10. “Mae prentisiaethau yn dal i fod yn rhaglen flaenllaw i Lywodraeth Cymru.”<sup>4</sup> Mae cyllid ar gael ar gyfer unigolion 16 oed a hŷn sydd â'r gallu i ennill cymhwyster Lefel 2 neu uwch y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. Gall cyflogwyr wneud cais am gyllid ar gyfer prentisiaeth, naill ai er mwyn rhoi cyfle i weithiwr newydd neu i hyfforddi gweithwyr presennol.

11. Fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2011-16, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc. Bydd rhaglenni prentisiaeth yn canolbwyntio ar y sectorau sydd â blaenoriaeth a nodir yn rhaglen adnewyddu'r economi y Llywodraeth, a bydd dyraniadau'n cefnogi recriwtio pobl ifanc 16 i 24 oed.

12. Mae tair lefel o brentisiaethau yng Nghymru: prentisiaethau sylfaen (modern) (cyfwerth â phum gradd da TGAU); prentisiaethau (modern) (cyfwerth â phasio dau bwnc Safon Uwch); a phrentisiaethau uwch/ diplomâu sgiliau modern, sy'n gweithio tuag at gymwysterau dysgu seiliedig ar waith fel NVQ Lefel 4, neu gymwysterau sy'n

---

<sup>3</sup> Cymdeithas Darparwyr Cyflogaeth a Dysgu

<sup>4</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, paragraff 5

seiliedig ar wybodaeth fel y radd Sylfaen. Cyflwynwyd prentisiaethau uwch yn 2010, ond dim ond 10 Fframwaith Prentisiaeth Lefel Uwch a oedd wedi'u datblygu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2011. Mae diplomâu sgiliau modern yn cael eu cyllido'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'u nod yw cynyddu'n ddirfawr y niferoedd sy'n dilyn prentisiaethau yn y Gorllewin a'r Cymoedd mewn sectorau twf. Ar y cyfan, mae'n cymryd rhwng blwyddyn a thair blynedd i gwblhau prentisiaeth.

13. Ar gyfer yr holl lefelau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn talu'r costau hyfforddi allanol ac mae'r cyflogwr yn talu cyflog y prentis. Cyflwynwyd Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer prentisiaid ar 1 Hydref 2010, sef £2.65 yr awr ar hyn o bryd.

14. Fel arfer, coleg lleol neu sefydliad hyfforddi arbenigol yw'r darparwyr hyfforddiant. Mae prentisiaethau'n cael eu llunio'n bennaf gan y cynghorau sgiliau sector, ac mae tua 200 o wahanol fathau. Fe'u gelwir yn "Fframweithiau Prentisiaeth".

15. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyllido nifer o raglenni eraill sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau: y cynllun Llwybrau at Brentisiaethau, y Rhaglen Recriwtiaid Ifanc, prentisiaethau a rennir a'r Diploma Sgiliau Modern. Mae'r rhaglen Twf Swyddi Cymru, a lanswyd ym mis Ebrill 2012, yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc 16-24 oed di-waith gael swydd am chwe mis ar yr isafswm cyflog cenedlaethol.

## Tueddiadau mewn prentisiaethau

---

### Niferoedd

16. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru bod nifer y prentisiaethau wedi gostwng yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf:

Nifer y bobl ar raglenni dysgu seiliedig ar waith sy'n gysylltiedig â phrentisiaeth

Blwyddyn academiaidd	Prentisiaethau Modern	Prentisiaethau Modern Sylfaen	Diploma Sgiliau Modern
2006/07	19,820	30,465	2,880
2007/08	17,965	26,895	2,430
2008/09	17,365	24,510	2,075
2009/10	16,665	21,575	2,155
2010/11	16,450	21,035	2,115

Ffynhonnell: [Adroddiad rhif 024078 StatsCymru](#) Llywodraeth Cymru [fel ar 26 Medi 2012]

17. Roedd ystadegau Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2010-11 yn dangos gostyngiad pellach hyd yn oed: 19,900 o brentisiaethau modern sylfaen (lefel 2), 16,215 o brentisiaethau modern (lefel 3) a 2,055 diploma sgiliau modern (lefel 4).<sup>5</sup> Rydym yn nodi'r gostyngiad sylweddol hwn yn nifer y prentisiaethau, a'r effaith pellgyrhaeddol y gallai hynny ei gael ar ddatblygiad economaidd Cymru, er ein bod hefyd yn nodi (paragraff 28) bod y cyfraddau cwblhau ar gyfer prentisiaethau wedi gwella'n ddiweddar.

18. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (FSB) mai dim ond 11% o fusnesau bach a arolygwyd yng Nghymru a oedd wedi rhoi cyfle i brentis yn 2010, a oedd, ym marn yr FSB, yn dangos bod angen cymorth ac anogaeth ar fusnesau bach i ystyried prentisiaid yn ddewis hyfyw.<sup>6</sup> Dywedodd yr FSB yn ddiweddarach mai amser ac arian oedd y prif rwystrau i gyflogwyr rhag rhoi cyfle i brentisiaid.<sup>7</sup>

19. Ar y llaw arall, mynegodd FSB Cymru bryder gan ddweud na ddylai unrhyw gynnydd yn nifer y prentisiaethau lastwreiddio ansawdd y prentisiaethau a gynigir neu waethygu'r diffyg sgiliau anghymarus yn economi Cymru ar hyn o bryd.<sup>8</sup>

---

<sup>5</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, paragraff 5

<sup>6</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig FSB Cymru, tudalen 2

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 150, 24 Mai 2012 (am)

<sup>8</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig FSB Cymru, tudalen 9

20. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan e-skills, y cyngor sgiliau sector ar gyfer busnes a thechnoleg gwybodaeth, mai dim ond 2% o gyflogwyr yn y diwydiant TG ledled y DU a oedd â staff yn dilyn prentisiaethau ar hyn o bryd, o gymharu â 5% ar gyfer pob sector.<sup>9</sup> Mynegodd e-skills bryder hefyd fod busnesau bach a chanolig yn ochelgar ynglŷn ag ymrwymo i brentisiaethau newydd, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economi sydd ohoni.<sup>10</sup>

21. Nododd CITB-ConstructionSkills Wales yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“With demand for construction Apprenticeships growing unexpectedly this year and a cap on our contract with Welsh Government, at the end of the financial year we turned down employers wishing to take on Apprentices. CITB-ConstructionSkills was losing money on the contract, resulting in us planning to further restrict recruitment in 2012-13. At the end of the last financial year we had 70 Apprenticeship placements that we could not fund, primarily due to a reduction of 10% in our 2011-12 work-based learning contract.”<sup>11</sup>

22. Ar y llaw arall, dywedodd Cyngor Gofal Cymru y bu cynnydd o 15% yn nifer y cyflogwyr a oedd yn defnyddio fframweithiau prentisiaeth rhwng 2010 a 2011.<sup>12</sup>

23. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Gyrfa Cymru (Career Choices Dewis Gyrfa bellach) ei fod wedi gweld cynnydd yn nifer y cyflogwyr a oedd yn dangos diddordeb mewn prentisiaethau ond nad yw'r lefel yr un fath ledled Cymru nac ar draws y sectorau. Ychwanegodd mai cyflogwyr mwy a oedd yn dueddol o recriwtio bob blwyddyn.<sup>13</sup> Ymhelaethodd Gyrfa Cymru ar y pwynt hwn wrth roi tystiolaeth lafar inni:

“If you take Cardiff as an example, a substantial number of apprenticeship vacancies are advertised by Careers Wales. For example, in 2008-09, perhaps 10% to 15% of our vacancies were apprenticeships in Cardiff and the Vale of Glamorgan.

---

<sup>9</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig e-skills UK, tudalen 4

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig e-skills UK, tudalen 5

<sup>11</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CITB-ConstructionSkills Wales, tudalen 5

<sup>12</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru, adran 1.3

<sup>13</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru, tudalen 1

Now, it is around 70%. However, you would not find that in Powys, or in rural parts of north and west Wales.”<sup>14</sup>

24. Credai Gyrfa Cymru y gallai rhywfaint o’r dryswch ddeillio o’r diffiniad o brentisiaethau:

“It goes back to this issue of defining an apprenticeship, because if you are looking at the old trade apprenticeships, we would say that there is not necessarily an increase, but, overall, there may have been because administration training and customer care, for example, are now being called apprenticeships. Lots of things are being called ‘an apprenticeship’ now, for example, lots of training on the job.”<sup>15</sup>

25. Nododd Creative Skillset Cymru hefyd y cynnydd mewn prentisiaethau yn y Cyfryngau Creadigol a Digidol yng Nghymru (un o’r sectorau sy’n cael blaenoriaeth) o 50% rhwng 2011 a 2012.<sup>16</sup>

26. Gwnaeth Gyrfa Cymru bwynt arall – oherwydd mai oedolion sydd eisoes yn y gweithle sy’n dueddol o ddilyn prentisiaeth, prin fu’r cyfleoedd i bobl ifanc wneud cais am swyddi prentisiaeth. Honnodd Gyrfa Cymru hefyd fod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer y cyflogwyr sydd â diddordeb mewn prentisiaethau fel ffordd gost-effeithiol o recriwtio. Roedd am weld ymgyrchoedd marchnata a strategaethau cyfathrebu, gan gynnwys hanesion o lwyddiant, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o brentisiaethau a’u manteision i fusnesau, gan helpu i gynyddu’r galw gan gyflogwyr.<sup>17</sup>

27. Er bod y cyflenwad cyffredinol o brentisiaethau’n gostwng, gall y galw am leoedd fod yn anhygoel o uchel. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, enwodd Chwarae Teg y cwmni GE yn Nantgarw a adroddodd bod bron i 900 o geisiadau wedi dod i law am 25 prentisiaeth yn unig.<sup>18</sup> Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Tai Cymunedol Bron Arfon ei fod wedi cael 250 o geisiadau am 10 swydd prentis yn 2011.<sup>19</sup>

---

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 24 Mai 2012 (am)

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 24 Mai 2012 (am)

<sup>16</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Creative Skillset Cymru, paragraff 1a)

<sup>17</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru, tudalennau 1-2

<sup>18</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Chwarae Teg, tudalen 3

<sup>19</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Tai Cymunedol Bron Afon, tudalen 2

28. Mae'r cyfraddau cwblhau ar gyfer prentisiaethau'n uchel ar hyn o bryd. Dangosodd ystadegau a gyhoeddwyd ar 5 Ebrill 2012<sup>20</sup> fod 83% o ddysgwyr mewn prentisiaethau ac 81% o ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth sylfaen wedi cyflawni fframwaith prentisiaeth lawn yn 2010-11, sy'n gynnydd sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol.

29. Fodd bynnag, dywedodd Chwarae Teg fod cyfran gyffredinol y menywod sy'n cwblhau prentisiaethau yn gostwng.<sup>21</sup> Roedd Colegau Cymru yn credu mai trosiant staff uchel iawn mewn rhai sectorau a oedd i gyfrif am hyn, fel y sector manwerthu a'r sector gofal - sectorau lle y ceir mwy o fenywod yn draddodiadol - a oedd yn golygu bod cwblhau prentisiaeth yn anodd. Felly, ystyriwyd bod y patrwm yn fwy nodweddiadol o'r sectorau yn hytrach na rhyw yr unigolyn.<sup>22</sup>

30. Ein casgliad o hyn yw bod angen mwy o gymorth ar rai sectorau penodol nag eraill wrth recriwtio a chadw prentisiaid.

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i argyhoeddi cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, o bwysigrwydd a chosteffeithiolrwydd prentisiaethau fel rhan o ddull mwy strategol o gynllunio eu hanghenion sgiliau yn y tymor canolig a'r hirdymor.**

31. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru nad oes data ar wahân sy'n dangos nifer y prentisiaid sy'n mynd ymlaen i gael gwaith ar ôl i'w prentisiaeth ddod i ben oherwydd bod y ffigurau ar gyrchfannau prentisiaid yn cael eu cyfuno â'r rhai ar y niferoedd sy'n gadael pob rhaglen dysgu seiliedig ar waith.<sup>23</sup>

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi nifer y prentisiaid sy'n mynd ymlaen i gael gwaith ar ôl i'w prentisiaeth ddod i ben, yn ôl y sector y maent yn mynd iddo.**

### ***Cymalau manteision cymunedol***

32. Dywedodd Gyrfa Cymru ei fod wedi gweld cynnydd yn nifer y cyfleoedd am brentisiaethau sy'n deillio o gymalau manteision

---

<sup>20</sup> Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith 2010/11

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Chwarae Teg, tudalen 3

<sup>22</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 210, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>23</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, paragraff 36



cymunedol mewn contractau gwasanaeth cyhoeddus (hynny yw, gwneud i gwmnïau sydd o dan gontract gydag awdurdodau lleol i gymryd prentisiaid), a bod rhai contractwyr wedi bod yn cysylltu â Gyrfa Cymru am help i recriwtio pobl ifanc ar gyfer y cyfleoedd hynny.<sup>24</sup>

33. Hefyd, croesawodd FSB Cymru gymalau manteision cymunedol mewn contractau sector cyhoeddus, yn enwedig y rhai sy'n ceisio amddiffyn y gadwyn gyflenwi drwy sicrhau bod isgontractwyr yn cael eu talu am eu gwasanaethau o fewn cyfnodau rhesymol. Fodd bynnag, dywedodd FSB Cymru ei bod yn rhy gynnar dweud a oedd mantais gyhoeddus drwy gaffael yn cyflawni'i nod ar yr ochr sgiliau prentisiaethau.<sup>25</sup>

34. Rhybuddiodd FSB y gallai cymalau manteision cymunedol rwystro busnesau bach a fyddai'n gallu llwyddo i ennill contractau sector cyhoeddus fel arall.<sup>26</sup>

35. Nododd Tai Cymunedol Bron Afon ei fod wedi cynnwys cymalau manteision cymunedol mewn trefniadau â chontractwyr ac, erbyn mis Rhagfyr 2011, roedd 15 o swyddi wedi'u creu ac roedd 288 o bobl wedi cael hyfforddiant yn sgîl ei gontractau.<sup>27</sup>

36. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru fod ei Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i brif-ffrydio'r defnydd o gymalau manteision cymunedol,<sup>28</sup> ac rydym yn croesawu hynny.

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn cymalau manteision cymunedol mewn contractau sector cyhoeddus i drefniadau isgontractio er mwyn hyrwyddo cyflogi hyfforddeion a phrentisiaid, gan ofalu peidio ag effeithio'n niweidiol ar ficrofusnesau.**

---

<sup>24</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru, tudalen 3

<sup>25</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 182, 24 Mai 2012 (am)

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig FSB Cymru, tudalen 8

<sup>27</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Tai Cymunedol Bron Afon, tudalen 3

<sup>28</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, paragraff 29

## Oedran

37. Croesawyd system brentisiaeth Cymru i bobl o bob oed gan sawl tyst i'r ymchwiliad.<sup>29</sup>

38. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru bod dros hanner y prentisiaid (54%) yn 25 oed neu'n hŷn, er i Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru bwysleisio bod hyn yn amrywio yn ôl sectorau galwedigaethol a'i fod wedi dangos tuedd ostyngol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Ffederasiwn yn dweud mai gofynion contractiol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12 na ddylai mwy na 50% o brentisiaid fod yn 25 oed neu'n hŷn sydd i gyfrif am hyn.<sup>30</sup>

39. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod darparwyr wedi cael adborth bod y galw gan bobl ifanc yn tueddu i fod ymysg y rheini sydd rhwng 19 a 24 oed yn hytrach na rhwng 16 ac 19 oed, a bod cysylltiad agos rhwng hyn â'r cyfraddau cynyddol o bobl ifanc sy'n aros ymlaen yn yr ysgol ar ôl troi'n 16 oed. Dywedodd y Ffederasiwn hefyd nad oedd digon o brentisiaethau i ateb y galw,<sup>31</sup> ond dywedodd ColegauCymru nad oedd hynny'n wir mewn rhai grwpiau o brentisiaethau fel peirianeg, lle mae'r sector yn ei chael yn anodd dod o hyd i ymgeiswyr gyda gradd C neu uwch mewn TGAU mathemateg.<sup>32</sup>

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod canran sylweddol o gyfleoedd Twf Swyddi Cymru yn cael eu cynnig fel prentisiaethau.**

40. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, pwysleisiodd Colegau Cymru bwysigrwydd a llwyddiant Llwybrau at Brentisiaethau Llywodraeth Cymru, sef rhaglen flwyddyn ddwys yn y coleg gyda'r nod o helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau ac i gael y cymwysterau sylfaenol angenrheidiol i'w paratoi ar gyfer y brif raglen brentisiaeth.<sup>33</sup> Bydd cyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru yn dirwyn i ben yn 2014, felly roedd ColegauCymru yn awyddus i'r cyllid barhau.

---

<sup>29</sup> Er enghraifft, Cofnod y Trafodion, paragraffau 23, 38 a 155, 16 Mai 2012

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, paragraffau 24-25

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, paragraff 10

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>33</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig ColegauCymru, tudalen 4

41. Rydym yn cytuno â thystion ac â'r pwyllgor â'n rhagflaenodd fod Llwybrau at Brentisiaethau yn gynllun gwerth chweil. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i golegau fod mewn sefyllfa i gynllunio ar gyfer y tymor hwy.

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried prif ffrydio a chlustnodi cyllid ar gyfer y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau ar gyfer system gynllunio a chyllido arfaethedig ar gyfer addysg ôl-16, gyda mesurau diogelwch i sicrhau bod y rhaglen yn berthnasol i anghenion economaidd a gofynion ardaloedd lleol.**

## Gwerth prentisiaethau

---

42. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan y City & Guilds mai gwerth prentisiaethau oedd gweithlu wedi'i hyfforddi'n well, ffordd gosteffeithiol o hyfforddi, cynnydd yng nghyflogau unigolion ac enillion ym mhob rhan o'r busnes.<sup>34</sup>

43. Dywedodd Airbus<sup>35</sup> ei fod wedi recriwtio prentisiaid fel rhan o'r strategaeth sgiliau am y rheswm a ganlyn:

"We are looking to develop an offer of progression for existing employees, but also to bring new blood into the organisation."<sup>36</sup>

44. Roedd yn ddiddorol clywed gan Airbus fod yn well ganddo feithrin ei weithwyr ei hun yn hytrach na denu graddedigion. Dywedodd:

"We retain our apprentices for far longer than we retain our graduates. Our retention of graduates varies, but it is often quite poor. We find that they come to us to get work experience and then go off to other places."<sup>37</sup>

45. Dywedodd Kronospan,<sup>38</sup> enillydd gwobr Cyflogwr Mawr y Flwyddyn 2011 yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru:

"We need to ensure that we have people who have the skills that we need as a business so that we can continue to develop. No-one else is going to train them."<sup>39</sup>

46. Roedd yn ddiddorol clywed hefyd gan Kronospan nad oedd ei bolisi recriwtio'n dibynnu ar yr hinsawdd economaidd. Dywedodd:

"It does not matter how the business is performing - we have to be bringing apprentices through the system. These are good-quality people that we can absorb within the business."<sup>40</sup>

---

<sup>34</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig City & Guilds, paragraff 3

<sup>35</sup> Mae Airbus, Brychdyn, yn cydosod adenydd holl awyrennau sifil Airbus ac yn cyflogi 6,000 o bobl, ym meysydd gweithgynhyrchu a pheirianeg yn bennaf

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 16 Mai 2012

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 16 Mai 2012

<sup>38</sup> Mae Kronospan, y Waun, yn arbenigo mewn cynhyrchion paneli pren ac yn cyflogi dros 600 o bobl

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 16 Mai 2012

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 36, 16 Mai 2012

47. Dywedodd Cyngor Gofal Cymru fod y system brentisiaethau yn cael ei defnyddio'n eang gan y sector gofal wrth recriwtio, ond hefyd wrth ddatblygu, hyfforddi a chadw staff.<sup>41</sup>

48. Cawsom ein plesio'n fawr gan y dystiolaeth a glywsom gan Airbus a Kronospan, yn enwedig wrth glywed am y berthynas agos y maent wedi'i datblygu â'r ysgolion bwydo yn eu hardaloedd, gyda'u cadwyni cyflenwi a chyda darparwyr er mwyn ateb y gofynion sgiliau.<sup>42</sup>

49. Fodd bynnag, yr hyn sy'n peri pryder inni yw nad yw pob rhan o Gymru – yn enwedig ardaloedd gwledig – yn gallu manteisio ar gyflogwyr sector preifat sydd ag agweddau mor gadarnhaol tuag at brentisiaethau. Yn yr ardaloedd hynny, mae rôl y sector cyhoeddus hyd yn oed yn fwy allweddol o ran cynyddu nifer y prentisiaid a darparu cyfleoedd hyfforddiant.

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru annog cyflogwyr sydd â rhaglenni prentisiaeth sydd wedi hen ennill eu plwyf i fentora cyflogwyr bach a chanolig i'w cynghori ar gynlluniau prentisiaeth a rhannu darpariaeth hyfforddi.**

### **Ateb anghenion sgiliau cyflogwyr**

50. Dywedodd FSB Cymru fod ei aelodau'n credu bod gormod o gymwysterau ar gael a bod y system addysg yn methu â mynd i'r afael yn ddigonol â materion sy'n ymwneud â llythrennedd a rhifedd. Roedd ei aelodau hefyd yn nodi'n gyson pa mor anodd oedd cael gafael ar staff iau sydd â'r sgiliau sylfaenol a'r tueddfryd angenrheidiol ar gyfer y gweithle (ee prydlondeb, ymwybyddiaeth o'r gweithle ac agwedd gadarnhaol at waith).<sup>43</sup>

51. Dywedodd Youth Cymru fod staff hyfforddi wedi dweud bod angen mwy o gymorth ar bobl ifanc gyda sgiliau hylendid sylfaenol, cadw amser a llythrennedd.<sup>44</sup>

52. Crybwyllodd Cyngor Gofal Cymru hefyd broblemau yn y sector gofal o ran recriwtio pobl ifanc a allai wneud gwely neu a allai

---

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru, tudalen 2

<sup>42</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 88, 90 a 116, 16 Mai 2012

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig FSB Cymru, tudalennau 4-5

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 254, 16 Mai 2012

chwarae'n greadigol gyda phlant oherwydd eu bod yn fwy cyfarwydd â chwarae â chyfryngau electronig.<sup>45</sup>

53. Dywedodd y Fforwm Busnes Preifat:

“Small businesses believe that.[...]students are not trained in employability. 65% of respondents to our training and skills panel felt that a greater focus on employability skills would make them more likely to take on young people.”<sup>46</sup>

54. Roeddem yn pryderu i glywed gan ColegauCymru bod colegau addysg bellach yn cael eu defnyddio fel clustog i baratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith<sup>47</sup> a'u bod yn gorfod llenwi bylchau yn sgiliau llythrennedd a rhifedd pobl ifanc. Yn ein barn ni, rôl yr ysgolion yw hon ac mae'n dargyfeirio adnoddau o flaenoriaethau eraill.

55. Fodd bynnag, ymddengys i ni bod anghysondeb yn y ddadl gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ac ACT. Ar un llaw, roedd y Ffederasiwn yn dweud:

“Historically, the people who undertake such programmes are those who are low academic achievers, but we want to attract the high academic achievers.”<sup>48</sup>

Ar y llaw arall, roedd ACT yn dweud ei fod am ddefnyddio prentisiaethau fel dull o ostwng y ffigur NEET ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 ac 24 oed.<sup>49</sup>

56. Ar begwn arall y sbectrwm sgiliau, roedd Airbus, e-skills a ColegauCymru yn dadlau bod angen mwy o brentisiaethau ar lefel uwch: er enghraifft, er bod gan 44% o weithwyr TG a Thelathrebu proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru gymhwyster lefel gradd (o gymharu â 26% o'r holl weithwyr), dim ond 24 o brentisiaethau TG lefel 3 a oedd yn cael eu darparu gan bum darparwr yn 2011-12.<sup>50</sup>

57. Roedd Airbus am weld twf sylweddol mewn prentisiaethau uwch ac am i Lywodraeth Cymru farchnata, cefnogi a chyflwyno'r fframwaith

---

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 317, 24 Mai 2012 (am)

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Fforwm Busnes Preifat, tudalen 4

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 152, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>48</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 69, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>50</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig e-skills, tudalen 4

prentisiaeth lefel 6 i gynulleidfa ehangach, a dyrannu model cyllid i gefnogi hyn lle y bo hynny'n briodol.<sup>51</sup>

58. Roedd Gyrfa Cymru hefyd yn deall mai lefelau 2 a 3 oedd y flaenoriaeth o ran defnyddio'r cyllid, ac nad oedd llawer o gyllid ar gael ar gyfer lefel 4 ac uwch.<sup>52</sup>

59. Cyfeiriodd Sgiliau Ynni a Chyfleustodau (Cymru) at ddiffyg sgiliau:

“There is a huge demand for higher-level skills. At the moment, there is a skills gap at that level, and there are some key drivers for higher-level skills. As the infrastructure ages and we move towards a low-carbon economy and need to embrace new technologies, employers need to have the skills to put these into place.”<sup>53</sup>

60. Cytunodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru â'r angen i ddatblygu prentisiaethau lefel uwch, gan ddweud:

“The higher apprenticeships are reliant on the sector skills councils developing the higher apprenticeships. We are not in a position to deliver a higher apprenticeship if they have not been developed. Higher apprenticeships in many cases have not been developed. They have in some industries, but they are in the development process. They are not fit for purpose.”<sup>54</sup>

61. Rydym yn synhwyro nad yw'r cyflenwad yn ateb y galw ar hyn o bryd am brentisiaethau lefel uwch, ac y dylid meithrin dull wedi'i dargedu i raddau mwy helaeth o ran darpariaeth, er enghraifft, drwy fapio prentisiaethau gyda marchnadoedd llafur drwy'r Wybodaeth am y Farchnad Lafur.

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru dargedu cyllid ar gyfer prentisiaethau lefel uwch yn y sectorau mwyaf priodol er mwyn sicrhau bod y sgiliau cywir yn cael eu darparu i ateb anghenion economi bywiog, modern Cymru.**

---

<sup>51</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Airbus UK, tudalennau 3 a 7

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 24 Mai 2012 (am)

<sup>53</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 24 Mai 2012 (am)

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 24 Mai 2012 (pm)

## Recriwtio prentisiaid

62. Ym mis Gorffennaf 2011, lansiodd Gyrfu Cymru wefan ryngweithiol, sef y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau. Ei nod yw bod yn wefan heb ganolwr lle gall cyflogwyr gofrestru cyfleoedd am brentisiaethau am ddim a defnyddio'r wefan i ddethol ymgeiswyr. Gall ymgeiswyr chwilio drwy'r swyddi prentisiaeth a gwneud cais ar-lein.

63. Yn ymarferol, dywedodd Gyrfu Cymru fod y gwasanaeth yn tueddu i weithio'n effeithiol ond bod yn rhaid iddo ddarparu cymorth wedi'i ganoli ar gyfer cyflogwyr (yn enwedig busnesau bach a chanolig) ac ymgeiswyr.<sup>55</sup> Beirniadwyd y Gwasanaeth hefyd gan bobl ifanc mewn fideo a gynhyrchwyd gan ein tîm Allgymorth am fod yn anodd ei ddefnyddio.

64. Cafwyd rhywfaint o feirniadaeth gan Kronospan hefyd fod y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau yn wael ac nad oedd mor effeithiol â Go Wales.<sup>56</sup> Felly, roedd Kronospan yn defnyddio ei hysbysebu lleol uniongyrchol ei hun, yn ymgysylltu ag ysgolion bwydo lleol ac yn cael atgyfeiriadau o golegau addysg bellach fel y prif lwybrau recriwtio.

65. Mynegwyd pryderon tebyg am y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau gan Hyfforddiant ISA, Coleg Menai a Chyngor Gofal Cymru.<sup>57</sup>

66. Dywedodd e-skills nad oedd wedi gweld llawer o dystiolaeth bod cyflogwyr a cholegau yn y sector TG yn defnyddio'r Gwasanaeth Paru a bod angen rhoi gwell cyhoeddusrwydd iddo ymysg cyflogwyr a darpar brentisiaid.<sup>58</sup>

67. Dywedodd ColegauCymru:

“We are too technology reliant. It is easy enough to say that something is on a website, but that is not sufficient or clear enough. There should be far more face-to-face contact.”<sup>59</sup>

68. Roedd sylwadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn ategu'r farn hon:

---

<sup>55</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfu Cymru, tudalen 5

<sup>56</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Kronospan, tudalen 2

<sup>57</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Hyfforddiant ISA, paragraff 16, tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Menai, paragraff 14; tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru, tudalen 6

<sup>58</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig e-skills, tudalen 6

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 228, 24 Mai 2012 (pm)



“One-to-one communication has proven to be better, particularly with careers advice and guidance because there is an element of hands-on diagnostics that is expected. Some of the online activities, the diagnostic tools, that we have used previously did not quite provide the level of advice and guidance that we had anticipated.”<sup>60</sup>

69. Er y deallwn mai gwasanaeth cymharol newydd yw'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau, byddai'n ddoeth ystyried gwelliannau i'r system.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa mor effeithiol yw'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau o ran ateb anghenion gwybodaeth cyflogwyr a darpar brentisiaid.**

### **Fframweithiau Prentisiaeth**

70. Roedd yn peri pryder inni glywed gan gyflogwyr bod ganddynt brofiadau gwahanol iawn o weithio gyda'u cyngor sgiliau sector perthnasol: roedd gan Airbus berthynas agos; nid oedd gan Kronospan unrhyw berthynas o gwbl;<sup>61</sup> a dywedodd Cyngor Bro Morgannwg nad oedd ganddo hyd yn oed gyngor sgiliau sector perthnasol.<sup>62</sup>

71. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru:

“We do not seem to be hearing much about the sector skills councils providing the level of relationship that would be needed to identify need, particularly for the micro and the small business sector. So, our concern would be - and I raised this in the written submission - the quality of the relationship between the employer, the training provider and the intermediaries. That is the key to ensuring that there is successful skills development going on.”<sup>63</sup>

72. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd e-skills fod y newidiadau i gyllid cyngorau sgiliau sector yn bygwth ei allu i gyflawni rhai elfennau o'i rôl yn y dyfodol, fel adolygu'r fframwaith prentisiaeth yn barhaus, neu ddatblygu prentisiaethau uwch.<sup>64</sup> Yn ein sesiwn dystiolaeth gyda chynghorau sgiliau sector dethol, clywsom y

---

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 30 Mai 2012

<sup>61</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 127-128, 16 Mai 2012

<sup>62</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 175, 16 Mai 2012

<sup>63</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 127, 24 Mai 2012 (am)

<sup>64</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig e-skills, tudalen 8

gallai newidiadau i'w cyllid craidd effeithio ar eu gwaith sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau.<sup>65</sup>

73. Rydym felly'n croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog y bydd yn cynnal cysylltiadau agos â Chynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector ar lefel y DU er mwyn sicrhau y gallant daro'r fargen orau i Gymru.<sup>66</sup>

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar lefel y DU i sicrhau bod gan y cynghorau sgiliau sector y gallu i deilwra fframweithiau prentisiaeth i ateb gofynion newidiol cyflogwyr a'r galw am fframweithiau prentisiaeth uwch yng Nghymru.**

74. Clywsom hefyd gan y cynghorau sgiliau sector eu bod yn dal i aros am fersiwn derfynol Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW), sy'n nodi'r gofynion sylfaenol y dylai pob fframwaith prentisiaeth cydnabyddedig yng Nghymru eu hateb.<sup>67</sup>

75. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn dal i arddangos y fersiwn ddrafft o SASW ac yn nodi y bydd y fersiwn derfynol ar gael o fis Hydref 2010 ac y bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2011. Felly, rydym yn croesawu sylw'r Dirprwy Weinidog bod Llywodraeth Cymru o fewn dim i gadarnhau'r fframwaith terfynol.<sup>68</sup>

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiwn derfynol Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru erbyn diwedd mis Rhagfyr 2012.**

**Darparwyr hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith a darparwyr hyfforddiant**

76. Er na ddylai darparwyr dysgu recriwtio prentisiaid yn uniongyrchol ond yn hytrach weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, roedd Cyngor Gofal Cymru yn bryderus bod yr ymarfer hwn yn dal i ddigwydd. Dywedodd:

“In Autumn 2010 we completed a survey of all employers who had used apprenticeships in our sector in the previous 3 years. Over 70% of those employers who responded were not aware that they had used apprenticeships; they thought they were

---

<sup>65</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 240-243, 24 Mai 2012 (am)

<sup>66</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 30 Mai 2012

<sup>67</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 374-376, 24 Mai 2012 (am)

<sup>68</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 30 Mai 2012

offered “free training” by the learning providers. Learning providers are adamant that they fully discuss the apprenticeship scheme with employers. For some reason there is a mismatch in communication.”<sup>69</sup>

77. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd TUC Cymru:

“Welsh Government’s Pathways to Apprenticeship programme goes some way to ensuring the vital link between schools, FEIs and apprenticeships. However, evidence from affiliated unions suggests that more development work to improve this link and align the learning outcomes from schools and FE to fit with the skills and knowledge needed to undertake full apprenticeships is desirable. A more strategic approach similar to that of the pathways programme could be considered across a broader range of schools and FE programmes.”<sup>70</sup>

78. Cyfeiriodd tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Menai at Swyddogion Lleoliad Gwaith, sef adnodd wedi’i neilltuo sy’n darparu’r cysylltiad allweddol rhwng cyflogwyr prentisiaid a chynghorwyr hyfforddiant. Buont yn effeithiol yn rheoli’r berthynas hon er mwyn galluogi i aseswyr yn y gweithle ganolbwyntio ar ddarpariaeth.<sup>71</sup>

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru annog darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith a hyfforddiant prentisiaeth i feithrin cysylltiadau agosach â chyflogwyr ac ysgolion er mwyn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a chymell cynnydd tuag at hyfforddiant seiliedig ar waith a/neu gyflogaeth.**

---

<sup>69</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru, adran 7

<sup>70</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig TUC Cymru, paragraff 4.3

<sup>71</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Menai, paragraff 4

## Rhwystrau i brentisiaethau

---

### Camddefnyddio termau a chanfyddiadau negyddol

79. Yn ôl Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, gan fod mwy o draddodiad o brentisiaethau mewn sectorau fel adeiladu, peirianeg a thrin gwallt, mae'r cyhoedd yn dal i ystyried prentisiaethau i ryw raddau yn nhermau stereoteip o swyddi israddol ac nid yw hynny'n adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni.<sup>72</sup>

80. Gofynnodd Kronospan gwestiynau am ansawdd rhai prentisiaethau a dywedodd fod prentisiaeth yn derm a oedd yn cael ei gamddefnyddio'n aml.<sup>73</sup>

81. Dywedodd Youth Cymru ei fod wedi dod i'r casgliad canlynol yn sgîl y trafodaethau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc:

“Cafwyd rhai agweddau eithaf negyddol a oedd yn deillio o brofiadau pobl o gael eu cymryd ymlaen ar rywbeth a oedd yn cael ei alw'n brentisiaeth er nad oedd yn brentisiaeth swyddogol, efallai. Fel y nodir yn y papur, roedd y bobl ifanc yn ei weld yn *rip-off*: eu bod yn gweithio am gyfnod am gyn lleied o arian, ac, ar ôl hynny, bod rhywun arall yn cael ei gymryd ymlaen.”<sup>74</sup>

82. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Uno'r Undeb Cymru hefyd:

“Unite is aware of young people taking up what are described as apprenticeship schemes only to become unemployed two years later when the scheme ends. This issue needs to be investigated and addressed.”<sup>75</sup>

83. Cyfeiriodd Youth Cymru at bwysau gan gyfoedion - roedd rhai prentisiaid y siaradwyd â hwy yn ei chael yn anodd aros ar gynlluniau

---

<sup>72</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, paragraff 17

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 16 Mai 2012

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 227, 16 Mai 2012

<sup>75</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Uno'r Undeb Cymru, tudalen 1

ffurfiol oherwydd bod gan eu ffrindiau swyddi nad oedd ganddynt fawr o ragolygon o bosibl, ond a oedd yn talu mwy ar y pryd.<sup>76</sup>

84. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd:

“We esteem apprenticeships and apprentices less in terms of minimum wage than we do a site labourer of the same age. That is a fundamental flaw in how we value them.”<sup>77</sup>

85. Rydym yn bryderus nad yw pobl yn llawn ddeall nac yn gwerthfawrogi prentisiaethau, yn enwedig y rhai a allai elwa fwyaf arnynt.

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â phroblemau o ran parch a bri tuag at brentisiaethau. Gallai hyn gynnwys:**

- ailystyried prentisiaeth fel cynnyrch;
- sicrhau bod pobl yn deall ystyr y term “prentisiaeth”; ac
- ystyried ffyrdd mwy arloesol o hyrwyddo a chyfathrebu “brand” prentisiaeth i bobl ifanc.

**Diffyg ymwybyddiaeth a chyngor gwael**

86. Amlygwyd diffyg dealltwriaeth sylweddol am brentisiaethau ymysg pobl ifanc o dan 15 oed gan Youth Cymru:

“Nid oedd y disgyblion o dan 15 oed wedi ystyried prentisiaeth fel opsiwn. Mae hynny'n golygu, pan wnânt benderfyniadau yn 14 mlwydd oed ynglŷn â pha lwybrau y maent am eu dilyn yn yr ysgol, na fydd y mwyafrif ohonynt yn meddwl yn nhermau prentisiaeth.”<sup>78</sup>

87. Dywedodd Richard Wilkins, prentis gydag Airbus ac enillydd Prentis y Flwyddyn 2011 yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru:

“I was toying with the idea of whether to go to university and, through Careers Wales, I stumbled across an opportunity to do

---

<sup>76</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 16 Mai 2012

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 215, 24 Mai 2012 (am)

<sup>78</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 228, 16 Mai 2012

an apprenticeship. I thought that it would be a good way of getting a degree and on-the-job experience.”<sup>79</sup> [Ein pwyslais.]

88. Dadleuodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru hefyd nad oedd prentisiaethau’n cael eu hyrwyddo’n ddigonol mewn ysgolion nac yn y cyfryngau, a bod gwahanol agweddau at brentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith rhwng ysgolion 11-16 oed ac ysgolion 11-18 oed.<sup>80</sup>

89. Dywedodd Gyrfa Cymru:

“It would appear that some schools are reluctant to recognise apprenticeships as a realistic option for brighter pupils. The post 16 learning/training environment can be complex and competition between providers is not always helpful.[...]. This has increased the number of pupils opting to remain in the safe environment of school rather than making a more suitable career decision e.g. apprenticeship.”<sup>81</sup>

90. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod angen i bobl ifanc dderbyn cyngor ar astudiaethau galwedigaethol fel prentisiaethau o oedran ifanc iawn.<sup>82</sup> Crybwyllodd Gyrfa Cymru hefyd bwysigrwydd darparu gwybodaeth amserol am gyfleoedd prentisiaeth er mwyn galluogi pobl ifanc a’u rhieni i gynllunio ymlaen llaw.<sup>83</sup>

91. Pwysleisiwyd y ffaith nad yw cyfleoedd yn cael eu hysbysebu’n ddigon cynnar mewn ysgolion gan fideo a luniwyd gan dîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol.<sup>84</sup>

92. Rydym yn bryderus nad yw pobl ifanc yn dod yn ymwybodol o’r cyfleoedd a gynigir gan brentisiaethau yn ddigon cynnar yn eu haddysg fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfaedd yn y dyfodol. Fel y dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, mae darpariaeth ôl-16 yn farchnad gystadleuol iawn a dylid

---

<sup>79</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 16 Mai 2012

<sup>80</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, paragraffau 49-50

<sup>81</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru, tudalen 8

<sup>82</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig FSB Cymru, tudalen 3

<sup>83</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru, tudalen 6

<sup>84</sup> <http://www.youtube.com/watch?v=sCuXCzCrFU4&feature=youtu.be>

rhoi mwy o flaenoriaeth i anghenion dysgwyr unigol nag i anghenion sefydliadau.<sup>85</sup>

93. Felly, rydym yn croesawu'r sylw gan y Dirprwy Weinidog y gellir gwneud mwy yn y maes hwn ac y bydd yn ceisio gwneud mwy o waith i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o werth prentisiaethau i bobl ifanc a'u bod felly mewn gwell sefyllfa i'w hyrwyddo.<sup>86</sup>

94. Mynegodd sawl tyst bryder am annibyniaeth y cyngor roedd pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn ei dderbyn ar brentisiaethau. Er enghraifft, dywedodd Airbus yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

"It is our opinion that some teachers do not fully understand how in-depth and challenging apprenticeships can be. Sometimes they view apprenticeships as a second best option compared with HE and as such could influence the learner to take A Levels rather than apply for apprenticeships.

"We have found that many of our apprentices have gone on to sixth form and have become disillusioned and then applied for our apprenticeships. This has resulted in only 10% of our intake being made up of direct school leavers whereas 60% are two or three years after they have left school."<sup>87</sup>

95. Roedd y farn hon yn deillio o brofiad y prentisiaid o Airbus a Kronospan y buom ni'n siarad â nhw, a ddywedodd eu bod wedi'u hannog gan athrawon i wneud cais i brifysgol, yn hytrach na dilyn prentisiaeth.<sup>88</sup> Gwnaeth Youth Cymru yr un pwynt.<sup>89</sup>

96. Pwysleisiodd Gyrfa Cymru hefyd ddiffyg dealltwriaeth rhai rhieni o brentisiaethau:

"Parents frequently do not understand for example how both a plasterer and a professional engineer (with a degree) can both have started as an apprentice."<sup>90</sup>

97. Cyfeiriodd ColegauCymru at bwysigrwydd ceisio dylanwadu ar y dylanwadwyr, gan ddweud bod yr ystadegau a gafwyd o'u gwaith

---

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 97 a 99, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>86</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 30 Mai 2012

<sup>87</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Airbus, tudalen 4

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 77-79, 16 Mai 2012

<sup>89</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 235, 16 Mai 2012

<sup>90</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru, tudalen 8

ymchwil yn dangos mai'r rhieni sydd â'r dylanwad mwyaf, yna'r grwpiau cyfoedion ac yna'r athrawon.<sup>91</sup>

98. Felly, rydym yn croesawu datganiad y Dirprwy Weinidog bod y farn bod cymwysterau galwedigaethol rywffordd yn israddol yn anghywir ac yn llawer rhy gyffredin o hyd.<sup>92</sup>

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob person ifanc a'i rieni yn cael cyngor o safon dda am y cyfleoedd a gynigir gan brentisiaethau ymhell cyn i ddisgyblion ddewis eu hopsiynau ar gyfer TGAU a chyrsgiau galwedigaethol, ac annog ysgolion i hyrwyddo prentisiaethau fel dewis amgen hyfyw i addysg uwch.**

99. Mae prentisiaethau'n cael eu marchnata mewn gwahanol ffyrdd ar hyn o bryd, er enghraifft, ar wefan Llywodraeth Cymru, gwefan Gyrfa Cymru a gwefan prentisiaethau. Ymddengys bod Gyrfa Cymru wedi cymryd rôl fwy rhagweithiol gan hyrwyddo cyfleoedd am brentisiaethau i bobl ifanc a recriwtio prentisiaid ar gyfer cyflogwyr,<sup>93</sup> er bod y dystiolaeth gan Youth Cymru yn awgrymu nad oedd ansawdd y cyngor a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru a'i argaeledd yn gyson ymhob maes.<sup>94</sup>

100. Dywedodd Youth Cymru hefyd ei fod wedi derbyn adborth cadarnhaol gan bobl ifanc mewn perthynas â gwybodaeth a gwasanaeth eirioli ei hyfforddwyr dysgu.<sup>95</sup>

101. Cawsom ein calonogi hefyd gan sylw a wnaed gan y Ganolfan Byd Gwaith yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“We will continue to commit to developing our understanding and knowledge in order to encourage better take up.”<sup>96</sup>

102. Dywedodd Gyrfa Cymru hefyd ei fod yn bryderus am lefel ac ansawdd y wybodaeth a oedd ar gael i ategu'r broses gyfarwyddyd mewn ysgolion:

“We have superb further education prospectuses and a lot of information about the sixth forms, but there is only very little

---

<sup>91</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 185, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>92</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 30 Mai 2012

<sup>93</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 12, 81, 162, 195 a 220, 16 Mai 2012

<sup>94</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 230, 16 Mai 2012

<sup>95</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 257, 16 Mai 2012

<sup>96</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Ganolfan Byd Gwaith, tudalen 2



information that we can take into schools to try to show young people what is available out there with regard to apprenticeships, particularly work-based learning.”<sup>97</sup>

**Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cydgysylltu, hyrwyddo a theilwra cyfleoedd am brentisiaeth yn well i sicrhau bod blaenoriaethau ac anghenion lleol yn cael eu diwallu’n strategol.**

### **Trafnidiaeth**

103. Dywedodd Youth Cymru fod cost, argaeledd ac amseriad trafndiaeth mewn rhai ardaloedd yn rhwystro pobl ifanc rhag gallu dilyn prentisiaethau. Roedd diffyg trafndiaeth wedi codi ei ben mewn trafodaethau rhwng Youth Cymru a phobl ifanc yn Hwlfordd a blaenau cymoedd Castell-nedd Port Talbot.

104. Dywedodd Gyrfa Cymru fod busnesau bach a chanolig mewn ardaloedd gwledig heb gysylltiadau trafndiaeth da yn cael trafferth llenwi eu prentisiaethau.<sup>98</sup>

105. Hyd yn oed mewn ardaloedd trefol, gall argaeledd trafndiaeth fod yn broblem. Rhoddodd Youth Cymru enghraifft o ddyn ifanc yng Nghaerdydd nad oedd wedi gallu derbyn prentisiaeth oherwydd nad oedd gwasanaethau bws a allai fod wedi ei gael i’r gwaith am 5am neu fynd ag ef adref ar ôl hanner nos.<sup>99</sup>

106. Mae trafndiaeth yn cyflwyno cyfres o faterion cymhleth i ni a gwyddom na fyddant yn hawdd i’w datrys. Gwyddom hefyd yn sgil ymchwiliadau gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad dros y blynyddoedd fod trafndiaeth yn cael effaith sylweddol ar allu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd gwaith, hamdden ac addysg.

### **Sefyllfa ariannol teuluoedd**

107. Awgrymodd tystiolaeth anecdotaidd gan Youth Cymru fod llawer o bobl ifanc o gefndiroedd tlotach yn cael eu rhwystro rhag ymgeisio

---

<sup>97</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 24 Mai 2012 (am)

<sup>98</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru, tudalen 2

<sup>99</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 274, 16 Mai 2012

am brentisiaethau am nad yw teuluoedd yn derbyn budd-daliadau plant os yw person ifanc yn mynd yn brentis.<sup>100</sup>

108. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Working Links:

“We see issues with the take up of apprenticeship schemes tied to means testing for benefits, and whilst this is not within the powers of Welsh Government it is a key issue for increasing uptake, particularly amongst young people in deprived communities where there may be generational unemployment.”<sup>101</sup>

109. Mae'r Budd-dal Plant a'r Budd-dal Treth Plant yn dod i ben wrth i berson ifanc ddechrau prentisiaeth gyda chyflogwr. Fodd bynnag, nid yw'r budd-daliadau hyn yn cael eu heffeithio yn achos yr unigolion cymwys hynny sy'n derbyn “hyfforddiant cymeradwy”, fel hyfforddeiaethau. Mae hyn yn achosi pryder i ni, er ein bod yn sylweddoli ei fod yn faes polisi nad yw wedi'i ddatganoli i Gymru.

**Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o sicrhau bod grantiau, gan gynnwys grantiau ar gyfer costau teithio hanfodol, ar gael i brentisiaid er mwyn i bobl ifanc o'r aelwydydd incwm isaf beidio â chael eu rhwystro rhag gwneud cais am brentisiaethau oherwydd yr effaith niweidiol ar lwfansau'r teulu.**

### **Stereoteipio ar sail rhyw**

110. Dywedodd Youth Cymru ei bod yn ymddangos o'i drafodaethau â phobl ifanc bod dynion ifanc yn llawer mwy tebygol o fod yn ymwybodol o brentisiaethau fel opsiwn na merched ifanc.<sup>102</sup>

111. Yn ddiddorol, dengys ystadegau Llywodraeth Cymru mai'r rhaniad cyffredinol o ran rhyw prentisiaid yw 56% yn fenywod a 44% yn ddynion,<sup>103</sup> er bod hyn yn amrywio'n sylweddol o sector i sector.

112. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Airbus bod proffil y mwyafrif o'i brentisiaid newydd yn dal yn wyn, gwryw a thua 19 oed. Felly, mae wedi gosod targed i'w hun i recriwtio 25% o fenywod ar

---

<sup>100</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 231-234 a 244, 16 Mai 2012

<sup>101</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Working Links, tudalen 4

<sup>102</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 278, 16 Mai 2012

<sup>103</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, paragraff 9

gyfer ei raglen yn y dyfodol ac mae'n hyderus y bydd yn cyrraedd y targed mewn amser cymharol fyr.<sup>104</sup>

113. Dywedodd Kronospan:

“We have not been successful in recruiting any females into what is a heavy process engineering environment. We have had a few applicants. Some have failed for academic reasons – they have not achieved the required standard, and we will not compromise on that.”<sup>105</sup>

114. Dywedodd Airbus mai'r broblem wrth ddenu mwy o fenywod i faes peirianeg yw bod cyn lleied ohonynt yn cyflawni Safon Uwch mewn ffiseg.<sup>106</sup>

115. Dywedodd Gyrfa Cymru fod angen newid canfyddiadau pobl ifanc, ac y dylai'r gwaith hwn ddechrau pan maent yn dair neu bedair oed:

“With regard to this issue of stereotyping, my own view would be that the most effective activities are likely to be those that take place with young people at a very early age, rather than, for example, an event for 14-year-olds designed to promote girls into engineering.”<sup>107</sup>

116. Felly, roedd yn annisgwyl clywed fod Gyrfa Cymru yn lleihau ei waith mewn ysgolion cynradd oherwydd toriadau yn ei gyllideb.

117. Crybwyllodd e-skills hefyd ddiffyg menywod yn ei sector – dim ond 18% o weithwyr TG proffesiynol a dim ond 11% o brentisiaid sy'n fenywod.<sup>108</sup>

118. Galwodd tystiolaeth ysgrifenedig Chwarae Teg i'r ymchwiliad hwn am fwy o ymdrechion i annog cyflogwyr yn y diwydiannau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) i gynyddu amrywiaeth eu prentisiaethau.<sup>109</sup> Clywsom ei fod yn gweithio gydag e-skills fel rhan o femorandwm cyd-ddealltwriaeth i hyrwyddo gyrfaedd TG i ddisgyblion benywaidd a menywod ledled Cymru.

---

<sup>104</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Airbus, tudalen 4

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 16 Mai 2012

<sup>106</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 16 Mai 2012

<sup>107</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 9-11, 24 Mai 2012 (am)

<sup>108</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig e-skills, tudalen 6

<sup>109</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Chwarae Teg, tudalen 3

119. Ar y llaw arall, menywod yw mwyafrif y gweithwyr mewn sectorau eraill - fel y sector trin gwallt ac iechyd a gofal. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Gofal Cymru mai dim ond 13.4% o'i brentisiaid yn 2009-10 oedd yn ddynion, ac mai 38 oed oedd cyfartaledd oedran ei brentisiaid, sy'n llawer uwch nag mewn sectorau eraill.

120. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru:

"We actually try to attract more males, as health and social care, childcare, and supporting teaching and learning in schools predominantly attract females. Most people think of attracting more female bricklayers and so forth, but we try to counter it the other way."<sup>110</sup>

121. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dadleuodd Chwarae Teg dros gasglu a monitro data ar brentisiaethau sydd wedi'i ddadgyfuno ar sail rhyw a dros ddarparu cyngor gyrfaoedd gwybodus sy'n herio stereoteipiau.<sup>111</sup>

**Argymhelliad 16 ac 17: Dylai Llywodraeth Cymru nodi a monitro'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau, y rhesymau am y gwahaniaethau hynny, ac archwilio'r posibilrwydd o bennu targedau ar gyfer gwella cyfradd recriwtio prentisiaid benywaidd yn y sectorau â blaenoriaeth o safbwynt economaidd.**

**Darparu hyfforddiant cydraddoldeb rhywiol ar gyfer cynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr addysgu proffesiynol i gywiro unrhyw stereoteipio yn y cyngor a roddant i bobl ifanc.**

### **Biwrocratiaeth a chymhlethdod**

122. Dywedodd Gyrfa Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig bod biwrocratiaeth, nifer y sefydliadau dan sylw a'r diffyg dealltwriaeth am y cysylltiadau rhwng cynlluniau a phrosiectau amrywiol ynghyd â'r amrywiol feini prawf ac amodau yn golygu nad yw BBaChau yn benodol yn debygol o elwa.<sup>112</sup>

---

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>111</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Chwarae Teg, tudalennau 2 a 6

<sup>112</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru, tudalen 10

123. Cafwyd yr un farn mewn cyfweiliadau a gynhaliwyd gan Dîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol â chyflogwyr.

124. Dywedodd Gyrfa Cymru hefyd:

“We have a very complex system that many people do not fully understand when it comes to how it works and how to access it.”<sup>113</sup>

125. Roedd y cynghorau sgiliau sector yn credu mai'r “dirwedd” prentisiaethau oedd yn gymhleth. Dywedodd Cyngor Gofal Cymru:

“I do not think that the schemes are complex, but the cumbersome business around the schemes is. It is about getting the right information at the right time, from the right people. Our experience is that the opportunities to do that are limited, patchy and inconsistent. A how-to-do guide for a small employer who wants to recruit an apprentice would be helpful, so that they know who they need to speak to in order to do that.”<sup>114</sup>

126. Dywedodd e-skills fod y system gyllido yn gymhleth a bod cyflogwyr yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd ei defnyddio.<sup>115</sup>

127. Rydym yn gweld manteision llunio canllaw syml ar gyfer BBaChau ar sut i drefnu prentisiaeth, gyda phwy y dylid cysylltu, sut i gael gafael ar gyllid ac ati.<sup>116</sup> Ymddengys nad yw taflenni cyfredol yn diwallu'r angen hwn yn llawn.

**Argymhelliad 18: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau cliriach yn cael eu darparu ar gyfer cyflogwyr ar sut i recriwtio prentisiaid a'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan ddarparwyr dysgu.**

128. Dywedodd FSB Cymru fod nifer o gyflogwyr o'r farn bod y broses o weithio gyda Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith yn or-gymhleth a biwrocraidd.<sup>117</sup> Beirniadwyd cysylltiadau â'r Ganolfan Byd Gwaith hefyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Fforwm Busnes Preifat.<sup>118</sup>

---

<sup>113</sup> Gyrfa Cymru: Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 24 Mai 2012 (am)

<sup>114</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 250, 24 Mai 2012 (am)

<sup>115</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig gan e-skills, tudalen 5

<sup>116</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 199, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>117</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig gan FSB, tudalen 7

<sup>118</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig gan Fforwm Busnes Preifat, tudalen 4

129. Rydym yn croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog bod gan feirniaid o gymhlethdod y system brentisiaethau bwynt teg,<sup>119</sup> ac:

"I do not think that it is unnecessarily complex, but there are grounds for looking at a rationalisation, certainly, and we intend to do that, to see whether we can simplify the system without having any impact on quality."

**Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd y berthynas waith rhwng Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorau sgiliau sector fel rhan o'i gwaith o symleiddio'r system brentisiaethau.**

### ***Rhannu prentisiaethau***

130. Cyfeiriodd Gyrfa Cymru at Gwmni Prentis Menai fel esiampl dda o sefydliad yn cydgysylltu prentisiaethau mewn maes drwy edrych ar anghenion y farchnad lafur a cheisio paratoi pobl ifanc ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, dywedodd Gyrfa Cymru nad yw arferion da yn digwydd ym mhob maes o reidrwydd:

"What you have is a lot of work-based learning providers working to contract to Welsh Government, and it depends on the work-based learning provider in specific areas. We do not have that co-ordination and planning."<sup>120</sup>

131. Argymhellodd ColegauCymru y gallai colegau addysg bellach ymgymryd â rôl fwy strategol wrth wella'r ffordd o gydgysylltu prentisiaethau'n rhanbarthol:

"Working closely with Regional Learning Partnerships and employer representative bodies, colleges could facilitate a common approach within the region for the priorities in the apprenticeships programme, ensuring it genuinely fits the needs of regional economies in Wales and has a proactive focus on anchor companies, regionally important employers and the Welsh Government's priority sectors."<sup>121</sup>

132. Roedd yn ddiddorol clywed hefyd am y model rhannu prentisiaethau, lle mae elfen profiad gwaith y brentisiaeth yn cael ei

---

<sup>119</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 4, 30 Mai 2012

<sup>120</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 55-58, 24 Mai 2012 (am)

<sup>121</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig gan ColegauCymru, tudalen 7

rhannu rhwng gwahanol gyflogwyr er mwyn rhoi cyfle i'r myfyrwyr gael blas ar ystod ehangach o weithgareddau ac er mwyn i'r cyflogwyr allu cyfuno eu hadnoddau.

133. Ar hyn o bryd, mae'r model yn cael ei dreialu ym maes adeiladu (80 prentisiaeth) a pheirianeg (90 prentisiaeth). Mae'r model adeiladu (Adeiladu Sir Gâr Gyda'n Gilydd) wedi bod ar waith ers 2008 ac mae'n cynnwys Coleg Sir Gâr, Carmarthen Construction Training Association Limited, ConstructionSkills, Cyngor Sir Caerfyrddin a chwmnïau adeiladu lleol.

134. Roedd gan FSB ychydig o amheuon am y cynllun rhannu prentisiaeth, gan ddweud y gallai cyflogwyr gystadlu am y prentis ar ôl i'r cynllun ddod i ben.<sup>122</sup> Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y gall rhannu prentisiaethau fod yn opsiwn hyfyw i BBaChau a fyddai'n ei chael hi'n anodd cyflogi prentisiaid fel arall.

135. Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru hefyd yn cefnogi'r cysyniad o rannu prentisiaethau, er nad oedd yn sicr pwy fyddai'r prif gyflogwr.<sup>123</sup>

136. Dywedodd Colegau Cymru ei fod wedi osgoi'r "sesiwn arwerthu" (sicrhau bod prentisiaid ar gael i'r cynigydd uchaf) drwy weithio'n ddyfal gyda chyflogwyr i bennu'r hyn y gallent ei gynnig y tu hwnt i gyfraddau cyflog. Hefyd, roedd wedi cymharu cyfraddau cyflog ar draws y sector, er mwyn sicrhau na allai un cyflogwr gynnig cyflog uwch i'r prentis nag un arall.<sup>124</sup>

137. Cyfeiriodd e-skills hefyd at ei waith gyda chyflogwyr yn Lloegr yn y datblygu prentisiaethau a reolir gan y sector, hynny yw, rhaglen brentisiaeth yn cael ei rheoli gan gwmni technoleg mawr (fel BT) er mwyn i gyflogwyr eraill elwa ar ei brofiad o ddarparu.<sup>125</sup>

**Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd prentisiaethau a reolir gan y sector er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar brentisiaethau a chodi safonau'r ddarpariaeth.**

---

<sup>122</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig gan FSB, tudalen 9

<sup>123</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, paragraff 8

<sup>124</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 203, 24 Mai 2012 (pm)

<sup>125</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig gan e-skills, tudalen 8

## Casgliadau

---

138. Mae prentisiaethau'n hanfodol er mwyn recriwtio, datblygu, hyfforddi a chadw'r gweithlu yng Nghymru, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

139. Mae prentisiaethau a'r agenda sgiliau yn ddull grymus iawn sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer sbarduno datblygiad economaidd drwy gefnogi busnesau a chynyddu cynhyrchiant y gweithlu. Felly, mae'n hollbwysig fod y Llywodraeth yn sicrhau bod cyflenwad cadarn o sgiliau yn cael eu darparu sy'n bodloni gofynion economi sy'n tyfu yng Nghymru.

140. Rydym wedi mynegi ein pryder bod niferoedd cyffredinol y prentisiaethau wedi bod yn gostwng. Ond mae'n hymchwiliad wedi datgelu awydd cynyddol am brentisiaethau, ac mae tystiolaeth bod polisi diweddar y Llywodraeth yn y maes hwn yn cael effaith gadarnhaol. Er enghraifft, rydym yn croesawu creu uned brentisiaeth o fewn Llywodraeth Cymru,<sup>126</sup> a'r ffaith bod cyfraddau cwblhau prentisiaethau wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.<sup>127</sup>

141. Fodd bynnag, rydym yn bryderus nad yw potensial a gallu prentisiaethau i gefnogi economi Cymru yn cael eu gwireddu'n llawn.

142. Yn awydd y Llywodraeth i newid pwyslais adnoddau tuag at brentisiaethau iau, rydym yn annog Gweinidogion i wrando ar y dystiolaeth a dderbyniwyd o blaid rhaglen brentisiaeth bob oedran i Gymru.

143. Rydym hefyd yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ddymchwel y rhwystrau niferus i brentisiaethau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Yn ein barn ni, mae'r system brentisiaeth yn eithaf cymhleth ac mae angen ei hegluro a'i hyrwyddo'n well. Nid oes digon o bobl ifanc yn cael eu hannog yn frwd i ddilyn llwybr prentisiaeth, ac nid yw'r cyflenwad yn bodloni'r galw mewn sectorau a sgiliau penodol ar hyn o bryd.

144. Er bod Gyrfa Cymru yn mynd drwy gyfnod o newid sefydliadol ac ariannol, mae'n hanfodol darparu cyngor gyrfaedd amserol o

---

<sup>126</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 104, 30 Mai 2012

<sup>127</sup> Gweler paragraff 28



ansawdd da ar brentisiaethau ac mae'n rhaid amddiffyn a hyd yn oed ymestyn y cyngor hwnnw.

145. Mae angen i'r Llywodraeth hefyd adeiladu ar yr enghreifftiau di-ri o arfer da yng Nghymru, a datblygu a marchnata "brand" unigryw ar gyfer prentisiaethau. Dylai hynny gynnwys datblygu brand premiwm o brentisiaethau - "safon aur" - a fyddai'n cael ei ystyried gystal â phrifysgolion gorau Cymru.

146. Mae gwaith i'w wneud hefyd i leihau'r gystadleuaeth am bobl ifanc rhwng darparwyr addysg ôl-16 a darparwyr hyfforddiant. Dylai dysgwyr unigol ddilyn y llwybr sydd orau iddynt, nid beth sydd orau i'r sefydliad.

147. Fodd bynnag, yn fwy sylfaenol, mae angen newid diwylliant er mwyn i brentisiaethau gael mwy o barch; dylid eu hystyried fel buddsoddiad yn hytrach na chost. Mae hynny'n gofyn am ddull newydd sbon o wneud prentisiaethau'n atyniadol i gyflogwyr, pobl ifanc a'u rhieni. Fel y dywedodd un o'n tystion, mae hon yn mynd i fod yn broses hir.<sup>128</sup>

148. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiad a'n hargymellion ac y bydd yn arwain at wella ansawdd prentisiaethau ac yn ennyn cyflogwyr i ymuno â'r system brentisiaethau. Ein gweledigaeth yw gweld prentisiaethau yn gwireddu eu potensial llawn fel llwybr dysgu hynod werthfawr i yrfa lwyddiannus a gweithlu medrus, cynhyrchiol.

---

<sup>128</sup> Gyrfa Cymru: Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 24 Mai 2012 (am)

## **Atodiad A – Cylch gorchwyl yr ymchwiliad**

---

A yw'r system brentisiaethau gyfredol yn rhoi cymorth effeithiol i economi Cymru?

- a yw'r system brentisiaethau gyfredol yn diwallu anghenion sgiliau cyflogwyr yng Nghymru ar hyn o bryd, ac a fydd y system yn eu diwallu yn y dyfodol?
- o gofio'r flaenoriaeth gynyddol a roddir i brentisiaethau ar gyfer pobl sydd rhwng 16 a 24 oed, a yw prentisiaethau'n ddewis atyniadol i bobl ifanc?
- a yw'r systemau ar gyfer sefydlu Safonau a Fframweithiau Prentisiaeth ac ar gyfer recriwtio prentisiaid yn gweithio'n effeithiol?

### **Materion allweddol**

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am ystyried y materion a ganlyn fel rhan o'r cylch gorchwyl:

- pa mor effeithiol yw ymgysylltiad cyflogwyr â'r system brentisiaethau yng Nghymru? A yw hyn wedi newid o ganlyniad i'r amgylchiadau economaidd presennol? A yw cyflogwyr yn gallu dod o hyd i ddigon o bobl ifanc sydd â'r sgiliau a'r doniau sydd eu hangen arnynt? A yw'r berthynas rhwng cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn un effeithiol? A yw prentisiaethau'n parhau i gael eu cyfyngu i sectorau penodol?
- a yw mentrau cymdeithasol yn gwneud defnydd effeithiol o brentisiaethau?
- a yw nifer y prentisiaid sy'n cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol, a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, wedi cynyddu neu wedi gostwng? A ddylai'r sector cyhoeddus recriwtio mwy o brentisiaid?
- mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o gymalau Budd i'r Gymuned mewn contractau sector cyhoeddus, sef cymalau y gellir eu defnyddio i hyrwyddo'r arfer o gyflogi hyfforddeion a phrentisiaid. A yw hwn yn ddull effeithiol o gynyddu nifer y prentisiaid?
- beth yw proffil cyffredinol prentis o ran oedran, rhyw a sector cyflogaeth, er enghraifft? A yw'r proffil hwn yn newid ac, os ydyw, beth yw'r rhesymau dros hyn? Yn ôl adroddiad gan

Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, oed prentis ar gyfartaledd yw 26. Beth yw'r rhesymau dros hyn? A yw prentisiaethau'n llwyddiannus, yn gyffredinol, o safbwynt prentisiaid? A yw'r gyfradd o brentisiaethau sy'n cael eu cwblhau wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Yn ymarferol, a roddir sicrwydd i brentisiaid y byddant yn cael swydd ar ddiwedd eu prentisiaeth?

- a yw Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith yn rhoi cymorth effeithiol i bobl sydd am ddod o hyd i brentisiaethau? A yw'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau, sef gwasanaeth newydd sy'n cael ei gynnig gan Gyrfa Cymru, yn effeithiol?
- pam mae pobl ifanc yn dewis bod yn brentisiaid? Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar eu penderfyniad?
- a yw prentisiaethau yn ddewis atyniadol i bobl o bob gallu, neu a ydynt yn cael eu hystyried yn ddewis eilradd o gymharu â dilyn cwrs addysg uwch? A yw agweddau'n newid, ac os felly, beth yw'r rhesymau dros hyn?
- a yw'r bobl sydd â'r dylanwad mwyaf ar ddewisiadau pobl ifanc, fel rhieni/gofalwyr, athrawon gyrfaoedd mewn ysgolion, ac athrawon yn gyffredinol, yn deall y system brentisiaethau yn llawn? A yw'r system yn rhy gymhleth, ac a oes gormod o ddewis o ran rhaglenni?
- pa mor effeithiol yw polisiâu Llywodraeth Cymru ar brentisiaethau? Sut y mae'r polisiâu hyn yn cydblethu a'i strategaethau ehangach ar yr economi a sgiliau?
- mae addysg a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau, yn faterion datganoledig, ond nid yw cyfreithiau sy'n ymwneud â chyflogaeth wedi'u datganoli. A oes gan bobl ifanc hawliau a mynediad digonol o ran cael hyfforddiant fel prentisiaid? Os na, sut y gellir gwella'r sefyllfa hon?
- a yw'r Cynghorau Sgiliau Sector yn hyrwyddo a chefnogi prentisiaethau mewn modd effeithiol? Sut y mae capasiti'r cynghorau yn effeithio ar eu perfformiad yn y maes hwn?
- a yw cyllid Ewropeaidd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er mwyn cefnogi prentisiaethau?
- a oes enghreifftiau o arfer da o ran gweithredu systemau prentisiaeth mewn gwledydd eraill y gallai Cymru ddysgu ohonynt?

## **Atodiad B – Cyfranogwyr fideo**

---

Cysylltodd tîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol â'r sefydliadau canlynol i gynhyrchu'r fideo prentisiaethau:

ACO Training (Abertawe)  
Anabledd Cymru  
Clasonic Kensai (Llanelli)  
Cohesive Communications.  
Coleg Llandrillo  
Coleg Menai  
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr  
Coleg Sir Benfro  
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wreccsam  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Deli Rouge  
DRP Accountants  
Ffederasiwn Busnesau Bach  
Ffermwyr Ifanc  
Grŵp Tai Pennaf  
Gyrfa Cymru  
Interlink RCT  
Murphy Oil Corp (Sir Benfro)  
Progression Training Cyf  
Rathbone  
Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon  
RWE Npower  
TATA Steel (Port Talbot)  
Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (Abertawe)  
Working Links

## Atodiad C – Tystion

---

Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar (ac ysgrifenedig) gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ielIssueDetails.aspx?Ild=3281&Opt=3>

### 16 Mai 2012

Mike McKenna	Cadeirydd Kronospan
Elliott White	Prentis, Kronospan
Gary Griffiths	Pennaeth Prentisiaethau, Airbus yn y DU
Richard Wilkins	Prentis, Airbus yn y DU
Allan Williams	Rheolwr Hyfforddi a Datblygu Cyngor Bro Morgannwg
Helen Mary Jones	Prif Weithredwr, Youth Cymru

### 24 Mai 2012 am

Trina Neilson	Prif Weithredwr, Gyrfa Cymru
Shirley Rogers	Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Gyrfa Cymru
Iestyn Davies	Pennaeth Materion Allanol, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Joshua Miles	Cynghorydd Polisi, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Peter Sishton	Rheolwr Cymru, e-skills UK
Mel Welch	Rheolwr Llwybrau, e-skills UK
Roberta Hayes	Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu, Cyngor Gofal Cymru
Jacky Drysdale	Rheolwr Cyflenwi Dysgu AB, Cyngor Gofal Cymru
Aled Davies	Rheolwr Cymru, Sgiliau Ynni a Chyfleustodau (Cymru)
Helen White	Rheolwr Prentisiaethau, Sgiliau Ynni a Chyfleustodau (Cymru)

## **24 Mai 2012 pm**

Arwyn Watkins Prif Swyddog Gweithredu,  
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

Andrew Cooksley Rheolwr Gyfarwyddwr ACT

Helena Williams Cyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol (Dysgu a Datblygu)  
Acorn Learning Solutions Cyf

Greg Walker Dirprwy Brif Weithredwr, ColegauCymru

Barry Liles Pennaeth a Phrif Weithredwr,  
Coleg Sir Gâr

Dafydd Evans Pennaeth, Coleg Menai

## **30 Mai 2012**

**Tîm Allgymorth  
y Cynulliad  
Cenedlaethol** <http://www.youtube.com/watch?v=sCuXCzCrFU4&feature=youtu.be>

Jeff Cuthbert AC Y Dirprwy Weinidog Sgiliau

Sam Huckle Pennaeth Polisi Prentisiaeth,  
Llywodraeth Cymru

Owen Evans Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes,  
Llywodraeth Cymru

## **Atodiad D – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig**

Darparodd yr unigolion a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor yn unig:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=3281>

Sgiliau Asedau

Richard Bertin, Cyngorydd, Bro Morgannwg

Consortiwm Manwerthu Prydain

Tai Cymunedol Bron Afon

Chwarae Teg

CITB-ConstructionSkills Wales

City & Guilds

Coleg Menai

Coleg Morgannwg

Creative Skillset Cymru

Diverse Cymru

W. Raymond Evans

Partneriaeth Sgiliau Ariannol

First4Skills

Fforwm Busnes Preifat

FSG Tool & Die Cyf

Sherie A. Harding, Coleg Llandrillo

CCAUC

Y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol

ISA Training Cyfyngedig

Canolfan Byd Gwaith

Lantra

Sgiliau er Cyfiawnder

Uno’r Undeb Cymru

TUC Cymru

Working Links